

Atodiad 1. Templed: Datganiad Ysgol Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026 i 2027.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academiaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

Os yw'ch rhifau yn 5 neu lai, defnyddiwch * yn lle'r dyraniad er mwyn diogelu plant rhag cael eu hadnabod.

Trosolwg Ysgolion

Manylion	Data
Enw'r ysgol	Ysgol Gymraeg Y Fenni
Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol	283
Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD	15%
Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn	Medi 2026
Dyddiad y caiff ei adolygu	Ebrill 2027
Awdurdodwyd y datganiad gan	Delyth Williams (PGY)
Yn arwain ar y GDD	Rachel Davies
Llywodraethwr sy'n arwain	Mike Pearson

Trosolwg Cyllid

Manylion	Swm
Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academiaidd hon	£35,650
Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academiaidd hon	£1,398,778

Rhan A: Cynllun Strategaeth

Datganiad o fwriad

Wrth wraidd ethos a gwerthoedd Ysgol y Fenni mae parch at yr unigolyn, gyda phob diwrnod wedi'i lunio o amgylch eu hanghenion unigryw. Rydym yn credu mewn paratoi dysgwyr trwy ddatblygu eu sgiliau a'u gwerthoedd ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Rydym yn datblygu dysgwyr sy'n cymryd perchnogaeth o'u dysgu, yn ymdrechu i wneud cynnydd personol ac yn dyfalbarhau wrth gwynebu heriau.

Diben y grant yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a Phlant sy'n Derbyn Gofal. Y canlyniad a fwriadwyd gan y grant yw:

- helpu i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu llawn botensial.
- Ymgorffori arferion cynhwysol, seiliedig ar dystiolaeth, sy'n hyrwyddo lles, ymgysylltiad ac annibyniaeth.
- Cryfhau dealltwriaeth y disgyblion o draddodiadau a dwyieithrwydd fel eu bod yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas amlieithog ac amlddiwylliannol y Fenni.
- Sicrhau llwyddiannau academiaidd, diwylliannol, cerddorol a chwaraeon gan ddathlu llwyddiant pob disgybl, beth bynnag fo'u talentau a'u diddordebau.
- Sicrhau bod TIS ac ACE yn sail i'n harfer er mwyn cefnogi ein dysgwyr agored i niwed.

Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

Canlyniad a fwriedir	Meini prawf llwyddiant
Gallwch ychwanegu neu ddileu rhesi yn ôl yr angen	
Cynnal sesiwn 'gweld sut rydyn ni'n dysgu' i rieni yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn.	Bydd perthynas cryf rhwng y cartref a'r ysgol lle mae rhieni'n ymgysylltu ac yn cymryd rhan yn nhaith dysgu eu plentyn.

Sgrinio pob unigolyn yn y Meithrin a phlant Derbyn Prydau Ysgol Am Ddim gan ddefnyddio'r asesiad Wellcomm. Trefnu cymorth i weithio ar draws yr ysgol i ddatblygu sgiliau darllen, llefared, cerdd a drama. Sicrhau mewnbwn ar gyfer dysgwyr bregus. Darparu ar gyfer grwpiau ymyrraeth gan gynnwys dysgwyr a thargedau ffiniol, disgwylidig ac uwch. Pennu targedau cynnydd tymor byr a diwedd Camau Cynnydd. Darparu ymyrraeth briodol a thracio cynnydd y dysgwyr tuag at gynnydd disgwylidig. Sicrhau bod disgyblion GDD yn derbyn cymorth	Bydd pob plentyn Meithrin a phlant Derbyn PYDd yn cael eu sgrinio gan ddefnyddio Wellcomm. Gweithredu ymyrraeth benodol yn dilyn yr asesiad. Bydd gwelliant amlwg yn eirfa a hyder y plant o ganlyniad i sesiynau canu a drama. Bydd cynnydd amlwg yn allu darllen unigolion o ganlyniad i ymyrraethau penodol. Bydd cynnydd amlwg yn nealltwriaeth geirfa y plant. Bydd cynllun clir o grwpiau targed wedi'i drefnu ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed ac o dan anfantais. Bydd y plant yn manteisio ar gefnogaeth grwpiau bach er mwyn symud ymlaen â'u dysgu drwy ymyrraeth. Bydd y UDA yn monitro cynnydd yr unigolion gan ddefnyddio system tracio'r ysgol.
Sesiynau ELSA / Drawing and Talking pob hanner tymor.	Bydd grwpiau PYDd a phlant bregus yn cael mynediad i sesiynau ELSA gyda'r mentor addysgu.
Cyllideb GDD Llangrannog, Gilwern outdoors a thrafnidiaeth / aelodaeth ar gyfer cystadlaethau chwaraeon.	Cymorth i blant GDD er mwyn sicrhau cyfleoedd cyfartal i fynychu addysgu allgyrsiol a phreswyl.
Ymyrraethau sy'n mynd i'r afael â phresenoldeb neu ymddieithrio	Cyfathrebiad clir gyda teuluoedd. Darparu cymorth ymarferol a chreu cynlluniau presenoldeb unigol. Cytuno ar gamau bach, cyraeddadwy gyda'r disgybl a'r teulu, gan nodi cyfrifoldebau clir ac adolygiadau rheolaidd. Gyda chaniatâd priodol a gweithdrefnau diogelu, cydlynu a gweithio gyda'r awdurdod lleol, gwasanaethau cymorth i deuluoedd, gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd l gefnogi teuluoedd a phlant.

Gweithgarwch yn y flwyddyn academiaidd hon

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academiaidd hon** i fynd i'r afael â'r heriau a restrir uchod.

Gweler manylion yn y blychau isod

Clustnodi staff – cyfraniad cyflog.

Hyfforddiant ac adnoddau – cyllideb.

Cyfraniad tripiâu preswyl ar gyfer plant GDD – cyllideb.

Dysgu ac addysgu

Cost wedi'i chyllidebu: *Sesiynau drama a cherdd 156 awr dros y flwyddyn - £6000.*
60% o chyflog CALU - £16,200

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Gallwch ychwanegu neu ddileu rhesi yn ôl yr angen	Cyrsiau a hyfforddiant atodol, darpariaeth sesiynau mentora. Penodi aelod cyswllt o staff i ddisgyblion GDD ym mhob blwyddyn. Sesiynau wedi'i hamserlennu'n wythnosol a'r gwaith a gwblhawyd yn seiliedig ar dargedau cynnydd. Mae'r Dirprwy Bennaeth Dros Dro yn cydlynu'r gwaith asesu ac yn olrhain cynnydd pob disgybl GDD. Mae gan ddisgyblion GDD amser ychwanegol gydag Arweinwyr Dysgu i drafod gweithgareddau a chynnydd gan adolygu hyn yn rheolaidd. Mae arweinwyr dysgu yn trafod strategaethau asesu fel partneriaid trafod a marcio, gallu'r disgybl i adolygu eu gwaith yn erbyn meini prawf llwyddiant gwersi ac ymateb i sylwadau marcio athrawon. Blynyddoedd Cynnar: Bydd pob disgybl PYDD yn gwneud cynnydd priodol o linell sylfaen isel iawn gan ei bod yn annhebygol y bydd ganddynt unrhyw wybodaeth am y Gymraeg cyn dechrau yn yr ysgol.

Ysgolion Bro (i gynnwys: (i) meithrin partneriaethau cryf gyda theuluoedd; (ii) ymateb i anghenion y gymuned; (iii) cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill)

Cost wedi'i chyllidebu £400

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Gallwch ychwanegu neu ddileu rhesi yn ôl yr angen	Cyfarfodydd rheolaidd gyda rhieni i drafod cynnydd eu plant a chyngor ar gefnogaeth y gallant ei darparu gartref.

Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, lechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)

Cost wedi'i chyllidebu: £19,050

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Gallwch ychwanegu neu ddileu rhesi yn ôl yr angen	Cyllideb plant GDD Llangrannog a Gilwern, cystadlaethau chwaraeon. Sesiynau lles ar gyfer plant bregus trwy ddarpariaeth ffurfiol gyda HJ – wedi hyfforddi mewn 'Drawing and Talking' ac ELSA. Datblygiad sgiliau LLC. Codi ymwybyddiaeth ac ehangu sgiliau ar lafar. Mae plant bregus yn mynychu sesiwn foreol ('cofrestru') er mwyn eu paratoi ar gyfer y diwrnod a sicrhau bod plant yn barod i ddysgu. Hyrwyddo pwysigrwydd perthnasoedd iach a chodi ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion am faterion diogelwch. Dilyn cynllun Sir Fynwy. Nyth - Mae dysgwyr yn dangos cynnydd mesuradwy mewn llythrennedd, rhifedd, neu sgiliau trawsgwricwlaidd, a gaiff ei olrhain drwy Gynlluniau Datblygu Unigol ac asesiad ffurfiannol. Mae ymyraethau wedi'u targedu yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael eu hadolygu bob tymor am effaith, gydag addasiadau'n cael eu gwneud yn seiliedig ar gynnydd y dysgwr.

Cyfanswm cost y ceisiadau:

Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academiaidd flaenorol

Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academiaidd 2025 i 2026.

Gweithgarwch	Effaith
--------------	---------

Gallwch ychwanegu neu ddileu rhesi yn ôl yr angen	Cafodd yr holl ddisgyblion sydd eisiau, waeth beth fo'u cefndir ariannol, ymweliadau addysgol gan gynnwys triapiau Llangrannog, Gilwern a thriapiau Camau Cynnydd. Yn cynyddu cyfranogiad disgyblion dan anfantais gymdeithasol-economaidd mewn gweithgareddau cyfoethogi, gan feithrin cynhwysiant a hyder. Asesiadau Wellcomm wedi'u cwblhau ar gyfer pob plentyn Meithrin: ymyriadau lleferydd ac iaith wedi'u targedu wedi'u gweithredu. Grwpiau ymyrraeth wedi sicrhau cefnogaeth gyson a chynnydd mesuradwy yng nghyrhaeddiad disgyblion. Cefnogodd sesiynau ELSA un i un a lluniadu a siarad paratoad emosiynol a lleihau digwyddiadau ymddygiadol. Mae hyn wedi cynnwys 'check ins', cyfleoedd i blant siarad ag oedolion y gallant ymddiried ynddynt, a chymorth wedi'i dargedu lle mae amgylchiadau unigol wedi effeithio ar eu lles emosiynol neu eu hymgysylltiad â'r ysgol Therapi canu wedi gwella geirfa, mynegiant emosiynol a rhyngweithio cyfoedion ymhlith plant ysgol am ddim. Cyfleodd I gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ac Eisteddfod Genedlaethol o ganlyniad i sesiynau canu gan arbenigwr. Mae'r holl staff wedi derbyn datblygiad proffesiynol priodol i gefnogi dysgwyr yn effeithiol, gan gynnwys hyfforddiant mewn Archwilio Ymddygiadau a Rheoli Trawma, Cylchedau Synhwyraidd a Therapi Lego. Data presenoldeb yn dangos nad oes gap mawr rhwng presenoldeb plant PYDd a phlant sydd ddim yn gymwys i dderbyn PYDd. Pan fu pryderon ynghylch presenoldeb, mae'r ysgol wedi gweithio gyda theuluoedd i ddeall y rhwystrau sylfaenol ac, lle bo'n briodol, wedi rhoi cymorth ychwanegol ar waith. Mae hyn wedi cynnwys cyfathrebu â rhieni a gofalwyr, monitro rheolaidd a ffocws ar feithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda theuluoedd.
--	--

	Data diwedd flwyddyn 25-26 yn dangos bod ymyrraeth a chefnogaeth ychwanegol wedi cael effaith cadarn a phositif ar gynnydd unigolion sy'n derbyn PYDd. Darparwyd parseli bwyd ar gyfer Dydd Nadolig i'r teuluoedd oedd angen cymorth ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn. Mae pob plentyn yn y meithrin yn derbyn amrywiaeth o opsiynau ffrwythau fel snac pob dydd. Ni ddisgwylir i rieni ddarparu snac ar gyfer plant y meithrin.
	Yn bwysicach, mae ein dull wedi canolbwyntio ar y plentyn unigol yn hytrach nag ar eu hamgylchiadau ariannol yn unig. Mae staff wedi gweithio i nodi rhwystrau yn gynnar, cynnal perthnasoedd cadarnhaol gyda theuluoedd a darparu cymorth priodol i helpu disgyblion i barhau i ymgysylltu â'r ysgol.

Rhaglenni a ddarperir yn allanol

Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.

Rhaglen	Darparwr
Gallwch ychwanegu neu ddileu rhesi yn ôl yr angen	Sesiynau canu wedi gwella geirfa, mynegiant emosiynol a rhyngweithio cyfoedion ymhlith plant ysgol am ddim.

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Defnyddiwch y blwch hwn i rannu unrhyw wybodaeth bellach am eich strategaeth GDD. Er enghraifft, ynglŷn â chynllunio eich strategaeth, neu weithgaredd arall rydych chi'n ei weithredu i gefnogi disgyblion o aelwydydd incwm isel, nad yw'n dibynnu ar GDD.